



KIER

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Kier Construction Western & Wales

# Newport East Health & Wellbeing Centre (19 Hills)

Llywodraeth Cymru Welsh Government

ISSUE 04

We at Kier Construction are delighted to have been appointed by Aneurin Bevan University Health Board to complete the programme of works, building the new Newport East Health and Wellbeing Centre, Ringland, Newport.

## Who are Kier?

We are the UK's largest regional builder, with a network of 88 offices across the UK, delivering over £2b of projects annually to both private and public-sector clients. We provide a comprehensive building, design and facility management service across all market sectors. Our local Office is based in St Mellons, Cardiff.

## Project Overview

Aneurin Bevan University Health Board, together with Newport City Council and our third sector partners, the Health and Wellbeing Centre will form part of a vibrant community hub which will be available to Newport East residents. Services available will include:

- GP Services
- Learning Disability Services
- Dental Services
- Memory Assessment Clinics
- Sexual Health Services
- Audiology
- Flying Start
- Health Visitors
- Dieticians
- District Nurses
- Speech and Language Therapy Services
- Wellbeing Support
- Podiatry Services
- Substance Misuse Services
- Diabetic Retinopathy
- Mental Health
- Abdominal Aortic Aneurysm Screening

In addition to medical services, the community hub will bring people together to support wellbeing, reduce loneliness and promote independent living, all in a welcoming environment.

## Construction Update

The new '19 Hills' Health and Wellbeing Centre is rapidly taking shape, with structural steel frame complete and concrete floors cast. Preparation for internal drainage is underway and works to the Ground Floor slab are progressing well.









In the run up until Christmas the team will start to enclose the envelope of the building and commence the roofing works, to get the building sufficiently watertight to commence internal trades in the new year.

## Community Engagement Update

Kier believes corporate responsibility starts with running a safe, efficient and profitable business, so that we are in a strong position to share wider benefits with the communities where we operate. This means working in a responsible way, respecting our people and supply chain, making safety a priority and protecting the environment. It also means working hard to be a good neighbour and helping our customers and their communities by supporting local supply chains, community initiatives and good causes.



Kier were thrilled to have recently welcomed Ringland Primary School to site for a steel signing activity. Pupils learnt about safety, digital construction and were full of questions about the build, which we loved! The team have partnered with Ringland Hub's Newport Youth Academy offering site visits, providing intel about the construction industry and planning future activities to enhance young people's learning.

The team have provided works for Ringland Labour Club, donated to Eden Gate, hosted workshops at Coleg Gwent's Newport Campus and have further engagements planned for local schools in the area.

If you would like us to consider an engagement/initiative with you, please contact Jessica O'Donnell via email Jessica.odonnell@kier.co.uk

## Meet the team....



**Nick Hamersley**
Project Manager (Project Lead)



**Ian Davies**
Project Manager



**Peter Stanton**
Contracts Manager



**Jessica O'Donnell**
CSR Coordinator



**Lorraine Morgan**
ABUHB Programme Manager



**Carolyn Frame**
ABUHB Primary Care Communications Manager

Site will be closing on the evening of 20th December. Site will be re-open on Tuesday 2nd January

**Over the Christmas period the following manager will be in :**

- Nick Hamersley: 07807 460027






Kier Construction Cymru a'r Gorllewin

# Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd (19 Bryn)

RHIFYN 04

Rydyn ni yn Kier Construction wrth ein bodd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ein penodi ni i gwblhau rhaglen waith ac adeiladu Canolfan Iechyd a Lles newydd Dwyrain Casnewydd yn Ringland, Casnewydd.

## Pwy yw Kier?

Ni yw cwmni adeiladu rhanbarthol mwyaf y DU. Mae gennym rwydwaith o 88 o swyddfeydd ar draws y DU ac rydyn ni'n cyflawni dros £2bn o brosiectau'n flynyddol ar gyfer cleientiaid o'r sectorau preifat a chyhoeddus. Rydyn ni'n darparu gwasanaeth adeiladu, dylunio a rheoli cyfleusterau ar draws holl sectorau'r farchnad. Mae ein Swyddfa leol yn Llaneirwg, Caerdydd.

## Trosolwg o'r Prosiect

Trwy bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Dinas Casnewydd a phartneriaid o'r trydydd sector, bydd y Ganolfan Iechyd a Lles yn rhan o hyb cymunedol bywiog ar gyfer trigolion Dwyrain Casnewydd.
Bydd y gwasanaethau'n cynnwys:

- Gwasanaethau Ymarferydd Cyffredinol
- Gwasanaethau Anableddau Dysgu
- Gwasanaethau Deintyddol
- Clinigau Asesu Cof
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol
- Awdioleg
- Dechrau'n Deg
- Ymwelwyr Iechyd
- Dietegwyr
- Nyrsys Ardal
- Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith
- Cymorth Lles
- Gwasanaethau Podiatreg
- Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau
- Retinopathi Diabetig
- Iechyd Meddwl
- Sgrinio Ymlediad Aortig yn yr Abdomen

Yn ogystal â gwasanaethau meddygol, bydd yr hyb cymunedol yn tynnu pobl ynghyd i hybu lles, lleihau unigrwydd a chynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol, a'r cyfan mewn amgylchedd croesawgar.

## Y Diweddaraf ar y Gwaith Adeiladu

Mae Canolfan Iechyd a Lles newydd '19 Bryn' yn datblygu ar garlam. Mae'r ffrâm ddur strwythurol newydd wedi ei chwblhau ac mae'r lloriau concrit wedi eu gosod. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y draeniau mewnol wedi dechrau, ac mae'r gwaith ar slabyn y Llawr Gwaelod yn dod yn ei flaen yn dda.






Yn y cyfnod cyn y Nadolig, bydd y tîm yn dechrau amgáu gorchudd yr adeilad ac yn dechrau gwaith ar y to fel bod yr adeilad yn ddigon dwrglos i ddechrau'r gwaith mewnol yn y flwyddyn newydd.

## Cysylltiadau â'r Gymuned

Mae Kier yn credu bod cyfrifoldeb corfforaethol yn dechrau gyda rhedeg busnes diogel, effeithlon a phroffidiol, fel ein bod ni mewn sefyllfa gadarn i reoli'r buddion ehangach i'r cymunedau lle'r ydyn ni'n gweithredu. Mae hynny'n golygu gweithio mewn ffordd gyfrifol, parchu ein pobl a'n cadwyn gyflenwi, gwneud diogelwch yn flaenoriaeth ac amddiffyn yr amgylchedd. Mae'n golygu hefyd gweithio'n galed i fod yn gymydog da a helpu ein cwsmeriaid a'u cymunedau trwy gynorthwyo cadwyni cyflenwi lleol, mentrau cymunedol ac achosion da.



Roedd Kier wrth ei fodd i groesawu Ysgol Gynradd Ringland i'r safle am weithgaredd arwyddion dur. Dysgodd y disgyblion am ddiogelwch ac adeiladu digidol, ac roedd ganddyn nhw lwyth o gwestiynau am y gwaith adeiladu - oedd yn fendigedig! Mae'r tîm wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Hyb Ringland Academi Ieuenctid Casnewydd, gan rannu gwybodaeth am y diwydiant adeiladu a chynllunio gweithgareddau at y dyfodol er mwyn cyfoethogi dysg y disgyblion.

Mae'r tîm wedi darparu gwaith ar gyfer Clwb Llafur Ringland, wedi cyfrannu at Eden Gate, wedi cynnal gweithdai yng Nghampws Casnewydd Coleg Gwent, ac mae ganddynt gysylltiadau pellach ar y gweill ar gyfer ysgolion lleol yn yr ardal.

Os ydych am i ni ystyried cysylltiad/menter gyda chi, cysylltwch â Jessica O'Donnell trwy e-bostio Jessica.odonnell@kier.co.uk

## Meet the team....



**Nick Hamersley**
Rheolwr y Prosiect (Arweinydd Prosiect)



**Ian Davies**
Rheolwr y Prosiect



**Peter Stanton**
Rheolwr Contractau



**Jessica O'Donnell**
Cydlynydd CSR



**Lorraine Morgan**
Rheolwr Rhaglen BIPAB



**Carolyn Frame**
Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gofal Sylfaenol BIPAB

**Bydd y safle'n cau gyda'r nos ar 20 Rhagfyr. Bydd y safle'n agor eto ar 2 Ionawr 2024.**

**Dros gyfnod y Nadolig, maen rheolwyr a enwir ar gael fel a ganlyn**

- Nick Hamersley: 07807 460027